

Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales

Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | Children, Young People and Education Committee

Ymchwiliad i Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg | Inquiry into Welsh in Education Strategic Plans

WESP 02

Ymateb gan : Ysgol Dyffryn Conwy

Response from : Ysgol Dyffryn Conwy

<p>Cwestiwn 1 – Yn eich barn chi, a yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyfrannu at y deilliannau a’r targedau a nodir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Llywodraeth Cymru?</p>
<p>Ydynt. Mae’r cynlluniau strategol a’n cynlluniau o ganlyniad ar lefel ysgol wedi bod yn allweddol wrth i ni newid cyfrwng ieithyddol yr ysgol ers 2010 gan gynyddu yn sylweddol erbyn hyn y nifer o ddisgyblion sydd yn dilyn mamiaith wrth drosglwyddo o CA2 i CA3 ac o fewn CA3 yn yr ysgol.</p>
<p>Os ydych o’r farn nad yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cyfrannu ddigon, sut y gellir datrys hyn?</p>
<p>Cwestiwn 2 – Yn eich barn chi, a yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau’r newidiadau angenrheidiol mewn awdurdodau lleol, neu a allant wneud hynny (er enghraifft, sicrhau eu bod yn darparu ar gyfer unrhyw gynnydd yn y galw am addysg Gymraeg)?</p>
<p>Ydynt o’r mhrofiad i. Yn yr ALI maent wedi eu ymgorffori yng ngwaith strategol yr ALI ac ysgolion yr ALI. Mae’r categoraiddio ym Mholisi Iaith diweddaraf yr ALI hefyd yn adlewyrchu hyn. Mae modelau gwahanol i’w angen gan fod Twf yn y ddarpariaeth mewn addysg Gymraeg yn wahanol iawn mewn cyd-destun ALI lle golygai hynny ysgol newydd (e.e. yn ALI y De), ac ALI fel Conwy ble mae’r twf yn digwydd o fewn ysgolion sydd yn newid o fewn neu rhwng categorïau iaith, ac ALI fel Gwynedd/Mon ble mae’r addysg yn bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg ond heriau mewn ardaloedd penodol.</p>
<p>Os ydych o’r farn nad yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau newidiadau, neu na allant wneud hynny, sut y gellir datrys hyn?</p>

<p>Cwestiwn 3 – Beth yw eich barn ar y trefniadau ar gyfer pennu targedau; monitro; adolygu; cyflwyno adroddiadau; cymeradwyo a chydymffurfio â gofynion Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (a rôl awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn y cyswllt hwn)?</p>
<p>Mae'r amseriad yn gallu bod yn anelwng – ceisiadau am wybodaeth efo terfynnau amser byr iawn sydd ddim yn dangos dealltwriaeth o brysurdeb ysgolion o dydd i ddydd.</p>
<p>Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys?</p>
<p>Peidio rhoi ceisiadau am wybodaeth sydd a terfynnau amser brysiog ac anystyrlon. Cynllunio o flaen llaw pa wybodaeth fydd ei angen, erbyn pryd a ym mha ffordd.</p>
<p>Cwestiwn 4 – Yn eich barn chi, a yw Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn amlygu rhyngweithio effeithiol rhwng strategaeth addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth a pholisïau perthnasol eraill*? (*er enghraifft, polisi cludiant ysgolion; rhaglen Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain; y datganiad polisi – Iaith fyw:iaith byw; Dechrau'n Deg; polisi cynllunio)?</p>
<p>Ydynt ar y cyfan ond mae'n bwysig eu cofio wrth gynllunio ar draws y deddfwriaethau a pholisïau hyn. I ni fel ysgol cymunedol, wledig mae trafndiaeth yn allweddol. Rydym wedi elwa eisoes o gynllun PFI gan ALL Conwy a chwmni Enterprise er mwyn sicrhau adeiladau o ansawdd uchel ar gyfer dysgu yn y Gymraeg ac yn ddwyieithog.</p>
<p>Os ydych o'r farn bod problemau yn y maes hwn, sut y gellir eu datrys?</p>
<p>Uchod.</p>
<p>Cwestiwn 5 – Yn eich barn chi, a yw canlyniadau'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau canlyniadau teg i bob disgybl, gan gynnwys er enghraifft, disgyblion cynradd / uwchradd; plant o gartrefi incwm isel?</p>
<p>Os ydynt yn cael eu defnyddio law yn llaw a blaenoriaethau a grantiau eraill e.e. y GAD, ac yn gydlynnus o fewn y GGA.</p>
<p>Os ydych o'r farn nad yw canlyniadau'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn sicrhau canlyniadau teg, sut y gellir datrys hyn?</p>
<p>Mae lle i ystyried dalgyfchoedd fwy fwy yn y cynlluniau yn lleol ac ar lefel ysgolion unigol ac ar y cyd.</p>

Cwestiwn 6 – Os byddai'n rhaid ichi wneud un argymhelliad i Lywodraeth Cymru o'r holl bwyntiau rydych wedi'u nodi, beth fyddai'r argymhelliad hwnnw?

Mae'r Cynllun strategol a'r grantiau gysylltiedig wedi bod yn allweddol bwysig i ni fel ysgol wrth gynyddu y nifer o ddisgyblion sydd yn derbyn eu addysg drwy'r Gymraeg. Byddwn yn awyddus i weld parhad yn hyn. Byddai gwell tryloywder o ran casglu gwybodaeth – beth, pryd a sut wedi ei gynllunio o flaen llaw ac yn amserol – yn gymorth wrth parhau i'w weithredu.

Cwestiwn 7 – A oes gennych unrhyw sylwadau neu faterion eraill yr hoffech eu codi na soniwyd amdanynt yn y cwestiynau penodol?

Mae'n bwysig i ystyried fod sefyllfa pob ALI, pob ysgol yn wahanol iawn. Mae angen hyblygrwydd yn y Strategaeth er mwyn adlewyrchu hynny. Mae'r her a'r llwyddiant yn y Cynllun yn cael ei weld a'i ddehongli yn wahanol yn dibynnu ar cyd-destun ieithyddol, daearyddol a cymeithasol yr ALI a'i hysgolion.

Beth am y cyswllt efo disgyblion oed cyn-ysgol a'u rhieni?